

At: Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 27 Ionawr 2021

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD IAU, 4 CHWFROR 2021 am 10.00 am yn TRWY CYFRWNG FIDEO.**

SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

1 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn ymwneud â'r busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

CAIS I'W YSTYRIED -

3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – THE ROYAL VICTORIA, SANDY LANE, PRESTATYN (Tudalennau 5 - 56)

Ystyried cais i adolygu Trwydded Eiddo a wnaed yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003 o ran The Royal Victoria, Sandy Lane, Prestatyn (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Brian Jones
Barry Mellor

Melvyn Mile

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

GWRANDAWIADAU'R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

GWEITHDREFN AR GYFER GWRANDAWIADAU ADOLYGU TRWYDDEDAU O BELL ADRAN 51 DEDDF TRWYDDEDU 2003

OHERWYDD Y CYFYNGIADAU YN SGIL PANDEMIG Y CORONAFEIRWS, BYDD GWRANDAWIADAU'R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU YN CAEL EU CYNNAL O BELL DRWY SYSTEM FIDEO-GYNADLEDDA CISCO WEBEX. BYDD Y SYSTEM YN CAEL EI PHROFI GYDA'R CYFRANOGWYR YMLAEN LLAW A BYDD POB PARTI PERTHNASOL YN DERBYN GWAHODDIAD ELECTRONIG A DOLEN I'R GWRANDAWIAD.

CAM	DISGRIFIAD
1.	Cadeirydd yn agor y cyfarfod yn ffurfiol ac yn croesawu pawb. Cadeirydd yn cyflwyno aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a'r swyddogion sy'n bresennol. Cadeirydd yn gwahodd partïon eraill i gyflwyno'u hunain a phwy maent yn cynrychioli.
2.	Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais am Adolygiad.
3.	Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd i gyflwyno'r Cais am Adolygiad.
4.	Cadeirydd yn gwahodd (os yn bresennol) unrhyw Awdurdod Cyfrifol ychwanegol i gyflwyno'u sylwadau.
5.	Cadeirydd yn gwahodd aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd ac unrhyw Awdurdod Cyfrifol sy'n bresennol.
6.	Cadeirydd yn gwahodd (os yn bresennol) unrhyw barti arall â diddordeb i gyflwyno sylwadau.
7.	Cadeirydd yn gwahodd deilydd y Drwydded Mangre i gyflwyno sylwadau.
8.	Cadeirydd yn gwahodd aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i ddeilydd y Drwydded Mangre ac (os yn bresennol) i unrhyw barti â diddordeb, gan yn egluro unrhyw bwynt gyda'r Ymgeisydd.
9.	Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd i wneud datganiad terfynol.
10.	Cadeirydd yn cloi'r cyfarfod i bob parti arall (a fydd yn gadael y cyfarfod) er mwyn i'r aelodau aros ac ystyried eu penderfyniad yn breifat, gyda'r Cynghorwr Cyfreithiol a Chlerc y gwrandawriad yn bresennol. [Gwesteiwr y cyfarfod yn cloi'r cyfarfod i sicrhau preifatrwydd].
11.	Cadeirydd yn dod â'r sesiwn breifat i ben pan fydd penderfyniad wedi'i wneud.

12.	Bydd penderfyniad amlinellol yr Is-Bwyllgor Trwyddedu a'r rhesymau drosto yn cael ei anfon mewn neges e-bost at bob parti â diddordeb cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Bydd y penderfyniad llawn, a'r rhesymau drosto, yn cael ei anfon mewn neges e-bost at yr holl bartion perthnasol o fewn pum niwrnod gwaith ynghyd â gwybodaeth am hawl partion i apelio.
-----	---

ADRODDIAD I'R:	Is-bwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	4 Chwefror 2021
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Trwyddedu 01824 706433 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk
TESTUN:	Cais i Adolygu Trwydded Eiddo dan Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003: Royal Victoria, Sandy Lane, Prestatyn Rhif Trwydded: PL(A)0128

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cais i adolygu trwydded eiddo yn unol ag Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003.
- 1.2 Mae'r cais wedi'i gyflwyno gan Mark O'Grady, Ysgrifennydd Cwmni Victoria Apartments (Prestatyn) Ltd, ynglŷn â'r Royal Victoria, Sandy Lane, Prestatyn, LL19 7ES.

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae hwn yn gais i adolygu trwydded eiddo bresennol. Gall awdurdod cyfrifol neu rywun â diddordeb alw am adolygu trwydded ond mae'n rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu:
 - Atal trosedd ac anhrefn
 - Diogelwch y cyhoedd
 - Atal niwsans cyhoeddus
 - Amddiffyn plant rhag niwed
- 2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor,
(ii) y Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r
(iii) gyfraith gyffredinol.
- 2.3 Drwy weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, mae'n rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu.
- 2.4 Atgoffir aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgrisiwn mewn unrhyw achos, dim ond am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os

penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

3.0 ARGYMHELLION

3.1 Penderfyniad yr Is-bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-Bwyllgor, o ystyried y sail ar gyfer yr Adolygiad ynghyd â sylwadau ychwanegol a wneir, gymryd camau o'r fath (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gall yr Is-bwyllgor:

- Addasu amodau'r Drwydded
- Eithrio gweithgaredd trwyddedadwy o gwmpas y Drwydded
- Cael gwared ar y goruchwyliwr safle dynodedig
- Gwahardd y Drwydded am gyfnod o hyd at 3 mis, neu
- Dirymu'r Drwydded

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Yn ôl canllawiau a gyflwynwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

“Mae'r trafodion a amlinellir yn Neddf 2003 ar gyfer adolygu trwyddedau eiddo yn amddiffyniad allweddol ar gyfer y gymuned lle mae problemau sy'n gysylltiedig ag amcanion trwyddedu yn digwydd ar ôl caniatáu neu amrywio trwydded eiddo.

Gall awdurdod cyfrifol neu rywun â diddordeb, yn dilyn caniatáu trwydded eiddo, ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded oherwydd problem sy'n codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu”

4.2 Cyflwynwyd y cais gan Mr Mark O'Grady ym mis Chwefror 2020 yn wreiddiol, i adolygu trwydded eiddo Admiral Taverns Limited mewn perthynas â'r Royal Victoria, Sandy Lane, Prestatyn. Fodd bynnag, oherwydd Covid-19 a'r cyfyngiadau, cafodd gwrandawriad yr Is-bwyllgor Trwyddedu ym mis Mawrth ei ganslo.

4.3 Goruchwyliwr Safle Dynodedig yr eiddo yw Mrs Diane Rona Thomas-Mealing.

4.4 Gellir archwilio copi llawn o'r Drwydded Eiddo bresennol, yn cynnwys yr atodlen weithredu gyfredol, yn Atodiad A.

4.5 Mae'r rhesymau dros yr adolygiad yn ymwneud ag amcanion trwyddedu atal trosedd ac anhrefn ac atal niwsans cyhoeddus ac, yn benodol, fel y nodir ar y cais, materion sŵn yn yr eiddo ac o gwmpas yr eiddo sy'n effeithio ar eiddo preswyl, ynghyd ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- 4.6 Gellir archwilio manylion llawn y cais gan Mr O'Grady yn Atodiad B.
- 4.7 Deddf Trwyddedu 2003 - gwybodaeth/gofynion
Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno i adolygu trwydded eiddo, mae'n rhaid rhoi copi llawn o'r cais (a'r atodiadau) i bob awdurdod cyfrifol ac i ddeiliad y drwydded eiddo.
- 4.8 Hysbysiad Cyhoeddus
Pan dderbynnir cais am adolygiad gan yr Awdurdod Trwyddedu, mae'r Ddeddf yn mynnu bod hysbysiad sy'n hysbysebu'r cais yn cael ei arddangos, yn yr eiddo dan sylw, ac ym mhrif swyddfeydd yr Awdurdod Trwyddedu am isafswm cyfnod o 28 diwrnod yn olynol.
- 4.9 Sylwadau Perthnasol
- 4.9.1 Fel ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru. Er bod nifer o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi yn erbyn yr eiddo, yn ôl yr Heddlu mae'r eiddo wedi dangos eu bod yn cadw at yr amodau trwyddedu ac felly nid oes ganddynt bryderon ynghylch cyfrifoldebau'r eiddo dan yr amcan trosedd ac anhrefn. Mae'r manylion llawn yn Atodiad C.
- 4.9.2 Mae sylwadau hefyd wedi'u derbyn gan Adain Rheoli Llygredd y Cyngor, sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r eiddo ynglŷn â chwynion yn ymwneud â sŵn ers 2017. Yn anffodus nid yw'r cwynion wedi'u profi ac felly ni chymerwyd unrhyw gam gweithredu pellach. Mae'r sylwadau llawn yn Atodiad D.
- 4.9.3 Mae naw datganiad hefyd wedi'u derbyn gan lesddeiliaid Victoria Apartments i gefnogi cais Mr O'Grady. Maent oll yn ymwneud â niwsans sŵn, gyda rhai yn cyfeirio at ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae copïau o'r rhain yn Atodiad E.
- 4.9.4 Mae deiliaid y Drwydded Eiddo, Admiral Tavern Ltd, wedi ymateb i'r cais am adolygiad ac wedi cyflwyno sylwadau i gefnogi eu hachos. Gweler Atodiad F.
- 4.9.5 I gefnogi sylwadau deiliaid y Drwydded Eiddo mae Mrs Diane Mealing-Thomas, y Goruchwyliwr Safle Dynodedig, wedi cyflwyno ei sylwadau ei hun. Gweler Atodiad G.

4.10 Materion Perthnasol i'r Cais

4.10.1 Bydd yr Aelodau'n nodi, wrth ystyried y cais, y dylent ystyried cydbwysedd er budd perchnogion, gweithwyr, cwsmeriaid a chymdogion yr eiddo.

4.10.2 Mae Swyddog Gorfodi Trwyddedu'r Cyngor wedi cadarnhau bod deg cwyn wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod rhwng mis Mehefin 2010 a mis Mai 2019. Yn ôl yr arfer, mae pob achwynydd wedi derbyn taflen monitro sŵn i'w llenwi a'i dychwelyd i Adain Rheoli Llygredd y Cyngor ar gyfer gweithredu pellach os oes angen.

4.10.3 Ers mis Mawrth mae'r swyddogion wedi bod yn cyfryngu gyda'r ymgeisydd, Mr O'Grady, a deiliaid y Drwydded Eiddo, Admiral Taverns, er mwyn dod i gytundeb derbyniol i bob parti. Yn ystod y broses hon cyflwynodd Mr O'Grady ei gynigion (ac ar ran y trigolion) a fyddai yn ei farn ef yn mynd i'r afael â'r materion yn yr eiddo. Mae'r rhain yn Atodiad H, sef:

- a. Lleihau oriau agor dydd Sul i ddydd Iau i 23:00 ac i hanner nos ddydd Gwener a dydd Sadwrn.
- b. Gosod deunydd gwrthsain addas rhwng yr eiddo trwyddedig a'r llawr cyntaf, oherwydd bod y deunydd presennol yn wael iawn.

4.10.4 Mae Admiral Taverns wedi ystyried cynigion Mr O'Grady ac mae eu sylwadau yn Atodiad I. I grynhoi:

- a. Nid ydynt yn gallu cytuno â'r cynnig i leihau oriau agor gan na fyddai'r model busnes presennol yn hyfyw petaent yn gwneud hynny o ystyried natur y gweithrediad a'r lleoliad.
- b. Maent yn fodlon cwrdd â swyddogion ar y safle ac ystyried unrhyw newid adeileddol arall, gan gynnwys mesurau lleihau sŵn a all dawelu achwynwyr.

4.10.6 O ganlyniad i'r broses gyfryngu, mae Swyddogion Rheoli Llygredd y Cyngor wedi cysylltu ag Admiral Taverns i drefnu cyfarfod ar y safle. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes trefniadau cadarn wedi'u gwneud oherwydd cyfyngiadau teithio Covid-19 yng Nghymru a Lloegr.

4.11 Ystyriaethau Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Polisi

Mae'r sylwadau perthnasol yn ymgysylltu'r amcanion trwyddedu. Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Atal Trosedd ac Anrhefn - **Adran 2.1 i 2.6**
- Atal niwsans cyhoeddus - **Adran 2.15 i 2.21**

4.12 Datganiad Polisi Trwyddedu – Y Broses Adolygu

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anrhefn - **Adran 3.1.1 i 3.1.17**
- Atal niwsans cyhoeddus - **Adran 3.3.1 i 3.3.9**

- 4.13 Atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r Cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu: –
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
 - Rheolau cyfraith gyffredin o gyfiawnder naturiol
 - Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION

- 5.1 Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda'u hystyriaethau.
- 5.2 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.
- 5.3 Yn ychwanegol at 5.2 uchod, atgoffir Aelodau hefyd bod protocol gorfodi ar y cyd yn bodoli gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor. Mae'r protocol gorfodi ar y cyd hwn yn disgrifio sut y bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r awdurdod trwyddedu yn delio â phroblemau sy'n codi mewn eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu trwy system ysgol orfodi o gamau un i dri. Gall swyddogion gadarnhau nad yw'r protocol gorfodi wedi'i symbylu, hyd yma, mewn perthynas â'r eiddo uchod.
- 5.4 Atgoffir aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu o'r angen i roi rhesymau dros eu penderfyniad.
- 5.5 Atgoffir yr aelodau bod angen atodi unrhyw amod ychwanegol y cytunwyd ei fod yn berthnasol ac yn gymesur i'r Drwydded Eiddo.
- 5.6 Dylai aelodau fod yn ymwybodol, wrth ystyried amodau diwygiedig i'w atodi i'r drwydded eiddo, y bydd angen dileu unrhyw amod sy'n bodoli eisoes ac sydd o natur debyg.
- 5.7 Dylai aelodau nodi, unwaith y bydd camau, fel y manylir arnynt yn Adran 3 yr adroddiad hwn (penderfyniad y Pwyllgor) wedi'u cymryd a bod penderfyniad yn cael ei wneud, nid yw penderfyniad yr Awdurdod yn cael effaith ar unwaith. Dim ond pan fydd y cyfnod apelio wedi dod i ben y bydd unrhyw benderfyniad yn dod i rym neu, os cyflwynir apêl, ar ôl datrys yr apêl.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag